# Ysgolion uwchradd 2

## Cwestiynau hunanfyfyrio i gynorthwyo ysgolion uwchradd i werthuso addysgu yn sgil ei effaith ar ddysgu

Yn gynyddol, mae ysgolion yn defnyddio ystod o weithgareddau gwerthfawr i werthuso addysgu a dysgu. Diffyg cyffredin rydym yn ei weld mewn ysgolion yw diffyg dealltwriaeth o sut i werthuso addysgu yn sgil ei effaith ar ddysgu. Gallai'r ystyriaethau canlynol eich helpu i feddwl am ba mor dda y caiff hyn ei wneud yn eich ysgol chi:

- Pan fyddwch yn arsylwi gwersi ac yn craffu ar waith:
    - a ydych yn gwerthuso **pa mor dda** y gall disgyblion wneud pethau (e.e. siarad yn glir ac ategu eu safbwyntiau â thystiolaeth, trefnu eu hysgrifennu'n rhesymegol a defnyddio geirfa eang a chyfoethog)?
    - a ydych yn **meintioli** sawl disgybl sy'n gallu/methu gwneud pethau?
    - a ydych yn dueddol o ysgrifennu/dweud mwy am yr addysgu na'r dysgu?
    - a ydych yn symud o gwmpas yr ystafell ddosbarth, yn edrych ar waith disgyblion ac yn siarad â disgyblion am eu dysgu?
    - a ydych yn canolbwyntio gormod ar b'un a yw disgyblion yn gorffen eu gwaith ai peidio, yn hytrach nag ar ansawdd yr hyn maent yn ei gynhyrchu?
    - a ydych yn ystyried pa mor dda y mae gweithgareddau dysgu yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd yn hytrach na'u cadw'n brysur yn unig?
- A ydych wedi ystyried tynnu ychydig o ddisgyblion allan o wersi tua diwedd y wers a'u holi am beth maent wedi'i ddysgu?
- A yw'r ffurflenni/systemau rydych yn eu defnyddio i arsylwi gwersi a chraffu ar waith yn annog staff i ganolbwyntio'n ddigonol ar ddysgu? A oes gorddibyniaeth ar ddull ticio blwch? I ba raddau y mae'ch ffurflenni/systemau yn ymwneud â chydymffurfio yn hytrach nag ansawdd?
- Pan fyddwch yn siarad â disgyblion mewn ymarferion llais y disgybl ar addysgu a dysgu, a oes cydbwysedd priodol rhwng gofyn am eu barn a phrocio'r hyn y maent wedi'i ddysgu?
- A ydych yn tynnu eich holl ganfyddiadau o arsylwi gwersi, craffu ar waith a llais y disgybl at ei gilydd i roi trosolwg i chi o addysgu a dysgu mewn adrannau ac ar draws yr ysgol?
- A yw eich darpariaeth dysgu proffesiynol yn ymateb i anghenion athrawon unigol ac yn mynd i'r afael â materion cyffredin ar draws yr ysgol?